OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 894 (Cy.114)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2003/2004) (Cymru) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *26 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *1 Ebrill 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

### Enw, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Disgownt ar gyfer 2003/2004) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

### Cyfradd y disgownt

**2.** 6.5 y cant fydd cyfradd ganrannol y disgownt a ragnodir ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2003 at ddibenion diffinio "r" yn adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(**1**) 1989 p.42.
(**2**) *Gweler* erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

26 Mawrth 2003

(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan IV o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ("Deddf 1989") yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyllid cyfalaf awdurdodau lleol.

Mae adran 49(2) o Ddeddf 1989 yn nodi fformwla ar gyfer pennu, at ddibenion Rhan IV o'r Ddeddf honno, werth y gydnabyddiaeth sydd i'w rhoi gan awdurdod o dan drefniant credyd mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar ôl y flwyddyn y daw'r trefniant i fodolaeth.

Un o'r elfennau y cyfeirir atynt yn y fformwla honno yw cyfradd ganrannol y disgownt a ragnodir ar gyfer y flwyddyn ariannol pan ddaeth y trefniant credyd i fodolaeth.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2003 mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi bod y gyfradd ganrannol y cyfeirir ati uchod yn gyfradd ganrannol o 6.5 y cant o ddisgownt sy'n 0.2 y cant yn llai na chyfradd y disgownt a ragnodwyd ar gyfer 2002/2003.